



Ffurflen ar gyfer cyflwyno Gwybodaeth Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd (PPI)

Noder: cyn anfon, dilëwch y geiriad ar gyfer iechyd/gofal cymdeithasol fel y bo'n briodol (h.y. technoleg iechyd cleifion/unigol/model gofal a chymorth ac ati)

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n defnyddio'r canllaw hwn wrth lenwi'r ffurflen hon. Mae'r canllaw yn cynnwys gwybodaeth am bwy sy'n gallu cyflwyno pwnc, ac mae'n rhoi arweiniad ar yr wybodaeth yr hoffem i chi ei chynnwys. Cysylltwch â Technoleg Iechyd Cymru (HTW) os oes angen unrhyw help arnoch (gweler y manylion cyswllt ar ddiwedd y ffurflen).

Pwrpas y ffurflen hon

Mae Technoleg Iechyd Cymru yn arfarnu ystod eang o dechnolegau a modelau gofal a chymorth. Ar gyfer iechyd, gallai hyn gynnwys dyfeisiau meddygol, diagnosteg, triniaethau a therapiau seicolegol. Ar gyfer gofal cymdeithasol, gallai hyn gynnwys offer a dylunio amgylcheddol, neu fodelau gwahanol ar gyfer cefnogi teuluoedd, plant, oedolion a'r gweithlu. Nid yw Technoleg Iechyd Cymru yn arfarnu meddyginiaethau.

Drwy gwblhau'r ffurflen hon, rydych yn rhoi gwybodaeth i ni sy'n hanfodol i'r ddealltwriaeth o sut mae person yn byw gyda chyflwr iechyd neu angen gofal cymdeithasol, a sut mae hyn yn effeithio ar eu bywyd a bywydau eu teulu ac unrhyw un a allai helpu i ofalu amdanynt. Byddwch hefyd yn rhoi gwybodaeth bwysig i ni, yn seiliedig ar brofiad neu farn, ar sut y gallai technoleg iechyd neu fodel gofal a chymorth effeithio ar bobl a'u teuluoedd.

Gwybodaeth Gyffredinol

Pwnc arfarnu HTW	
Enw'r sefydliad	
Cyflyrau iechyd/meddygol/angen gofal cymdeithasol sydd yn cael eu cynrychioli	
Enw cyswllt	
Rôl y person cyswllt	
Cyfeiriad	

Rhif ffôn	
E-bost	
Gwefan	
Dyddiad cyflwyno	

Y cyflwr iechyd neu'r angen gofal cymdeithasol

Iaith hygyrch: Os nad oes ei hangen yn benodol ar gyfer esboniad gwyddonol/technegol, defnyddiwch iaith glir, gan esbonio acronymau a thermau eraill nad ydynt yn rhai lleeg.

1. Disgrifiwch unrhyw ffynonellau a ddefnyddioch i gasglu gwybodaeth ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth hon.
(Gweler tudalen 3 o'r canllaw)

Uchafswm o 300 gair

2. Beth ydy'r cyflwr iechyd/angen gofal cymdeithasol, a sut mae'n effeithio ar fywydau dydd i ddydd cleifion/unigolion, eu teuluoedd, gofalwyr ac ati?
(Gweler tudalen 4 o'r canllaw)

Uchafswm o 500 gair

3. Sut mae'r cyflwr iechyd/angen gofal cymdeithasol yn cael eu diagnosio neu eu hasesu ar hyn o bryd, a beth ydy'r triniaethau/darpariaethau gofal presennol? (Gweler tudalen 4 o'r canllaw)

Uchafswm o 500 gair

4. Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig ag arferion presennol, a beth mae hyn yn ei olygu i gleifion, unigolion, eu teuluoedd, gofalwyr ac ati? (Gweler tudalen 5 o'r canllaw)

Uchafswm o 500 gair

Y Dechnoleg Iechyd neu'r model gofal a chymorth

5. Pa wahaniaeth wnaeth y dechnoleg iechyd neu'r model gofal a chymorth i fywydau cleifion/unigolion, neu pa wahaniaeth y gallent ei wneud, a pha ganlyniadau sydd fwyaf pwysig iddyn nhw, eu teuluoedd, ac ati?
(Gweler tudalen 5 o'r canllaw)

Uchafswm o 500 gair

6. Gwybodaeth ychwanegol rydych chi'n credu fyddai'n ddefnyddiol i HTW ei hystyried.
(Gweler tudalen 6 o'r canllaw)

Uchafswm o 300 gair

7. Crynowch brif bwyntiau eich ffurflen mewn hyd at 5 datganiad.
Pan rydym yn cyflwyno eich cais, byddwn yn cyflwyno'r rhain yn gyntaf.
(Gweler tudalen 6 o'r canllaw)

8. Rhowch fanylion unrhyw un tu allan i'ch grŵp sydd wedi chwarae rôl mewn paratoi eich cais.
(Gweler tudalen 6 o'r canllaw)

Uchafswm o 100 gair

9. Ydych chi'n rhoi caniatâd i'ch grŵp gael ei enwi yn adroddiadau HTW?
(Gweler tudalen 6 o'r canllaw)

Ydw

Nac ydw

**10. Ydych chi wedi llenwi'r ffurflen Datganiad o Ddiddordeb?
(Gweler tudalen 6 o'r canllaw)**

Do

Diolch am lenwi'r ffurflen hon. Os bydd gennym unrhyw ymholiadau, byddwn yn cysylltu â chi i gael eglurhad. Bydd eich cais yn cael ei ystyried gan dîm HTW, a bydd yn cael ei rannu gydag aelodau'r Pwyllgor er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu canllawiau ar gyfer y dechnoleg hon. Byddwn yn rhoi adborth i chi ar eich cais, a byddwch yn cael gwybod am ganlyniad yr arfarniad, a'r dogfennau cysylltiedig pan fyddant yn cael eu cyhoeddi.

Anfonwch eich cais a'r ffurflen Datganiad o Ddiddordeb drwy e-bost i healthtechnology@wales.nhs.uk neu drwy'r post:

Swyddog Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd
Technoleg Iechyd Cymru (HTW)
Hwb Gwyddorau Bywyd
3 Sgwâr y Cynulliad
Caerdydd
CF10 4PL
Y Deyrnas Unedig
Rhif ffôn: 029 2046 8947